Troseddu yng Nghymru a Lloegr 2008/09: Taflen ffeithiau Cymru

Neil Higgins, Bryce Millard a Paul Taylor

Lefelau troseddu yng Nghymru

Troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu (Tablau 1 a 2)

- Yn 2008/09 roedd cyfanswm y gyfradd o droseddau a gofnodwyd yng Nghymru (79 trosedd i bob 1000 o bobl) yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru a Lloegr i gyd (86 trosedd i bob 1000 o bobl). Roedd y gyfradd troseddau a gofnodwyd yng Nghymru i gyd yr un fath neu'n is na'r cyfraddau cyffredinol yng Nghymru a Lloegr ym mhob un o'r prif grwpiau troseddu heblaw am niwed troseddol.
- Roedd cyfanswm nifer y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru'n gostwng o dri y cant yn 2008/09 o gymharu â gostyngiad o bump y cant ar draws Cymru a Lloegr yn gyffredinol.
- Roedd gostyngiad ar draws yr holl brif grwpiau troseddu o gymharu â 2007/08 ac eithrio troseddau lladrata eraill oedd yn cynyddu o un y cant. Roedd y nifer o droseddau yn erbyn cerbydau'n gostwng o saith y cant, tra bod troseddau yn erbyn pobl a bwrgleriaeth yn gostwng o bedwar y cant. Roedd niwed troseddol yn gostwng o bump y cant.

Arolwg Troseddu Prydain (Tablau 3 a 4 a blwch testun 'Deall data ATP' ar dudalen 6)

- Roedd y risg o erledigaeth (y gyfran o'r bobl oedd wedi dioddef gan erledigaeth unwaith neu fwy yn ystod y 12 mis diwethaf) ar gyfer troseddau personol a chartrefi'n is yng Nghymru'n gyffredinol nag ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol.
- Roedd y gyfradd o'r achosion o holl drais ATP yn is yng Nghymru tra bod cyfraddau achosion o ladrata o geir a bwrgleriaeth yr un fath o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr.
- Roedd y gyfradd o achosion o droseddau cartrefi a phersonol yng Nghymru'n aros yn sefydlog heb ddangos unrhyw newid sylweddol rhwng ATP 2007/08 a 2008/09.
- Roedd bwrgleriaeth, pob lladrata o geir a'r holl drais ATP yn aros yn sefydlog heb ddangos unrhyw newid sylweddol rhwng ATP 2007/08 a 2008/09.

Lefelau troseddu fesul ardal heddlu

Troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu (Tablau 1 a 2)

- Roedd cyfraddau cyfanswm y troseddu a gofnodwyd yn is na'r gyfradd yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol mewn dwy o'r pedair ardal Heddlu yng Nghymru. Roedd y gyfradd isaf yng Nghymru yn Nyfed-Powys (48 trosedd i bob 1000 o bobl) tra bod y gyfradd uchaf yn cael ei chofnodi yn Ne Cymru (95 trosedd i bob 1000 o bobl).
- Roedd cyfraddau troseddu a gofnodwyd cofnodi yn Nyfed-Powys yn is na Chymru a Lloegr ar draws yr holl brif grwpiau troseddu. Yng Ngogledd Cymru, roedd y cyfraddau'n is na Chymru a Lloegr ar gyfer bwrgleriaeth, troseddu yn erbyn cerbydau a throseddau lladrata eraill ond yr un fath â ffigwr Cymru a Lloegr ar gyfer trais yn erbyn pobl a niwed troseddol. Ar yr ochr arall, roedd y cyfraddau yn Ne Cymru'n uwch na'r rhai ar gyfer Cymru a Lloegr ym mhob un o'r prif grwpiau troseddu heblaw bwrgleriaeth lle'r oedd yr un fath. Roedd cyfraddau is yng Ngwent na Chymru a Lloegr ar gyfer bwrgleriaeth a throseddau lladrata eraill ond ar gyfer y prif grwpiau eraill, roedden nhw'n uwch.
- Roedd cyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn gostwng o chwech y cant rhwng 2007/08 a 2008/09 yn Nyfed-Powys, ac o bump y cant yn Ne Cymru. Gwelodd Gogledd Cymru a Gwent gynnydd o un y cant dros yr un cyfnod.
- Roedd troseddau treisgar yn erbyn pobl yn gostwng o wyth y cant rhwng 2007/08 a 2008/09 yng Ngwent, pump y cant yn Nyfed-Powys, pedwar y cant yn Ne Cymru ac yn aros yn sefydlog yng Ngogledd Cymru. Roedd bwrgleriaeth yn gostwng o ddeg y cant yn Ne Cymru ond yn cynyddu o chwech y cant yng Ngogledd Cymru, pump y cant yng Ngwent ac un y cant yn Nyfed-Powys. Roedd pob llu yng Nghymru'n cofnodi gostyngiad mewn niwed troseddol.

Arolwg Troseddu Prydain (Tablau 3 a 4)

Dim ond canlyniadau ATP sy'n ystadegol sylweddol ar lefel pump y cant sy'n cael eu hamlygu yn y testun (gweler bocs testun 'Deall data ATP' ar dudalen 6).

- Roedd y risg o droseddau cartref yn is yn Nyfed -Powys a Gogledd Cymru o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr.
- Roedd y risg o droseddau personol yn is yng Ngwent, Gogledd Cymru a De Cymru o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr.
- Roedd y cyfraddau o achosion o droseddau cartref a phersonol yn gostwng yng Ngwent rhwng ATP 2007/08 a 2008/09 ond roedd yn aros yn sefydlog ym mhob ardal heddlu arall yng Nghymru. Roedd y gyfradd o achosion o ladrata o gerbydau'n gostwng yng Ngogledd Cymru tra bod y cyfraddau achosion o fwrgleriaeth a holl drais ATP yn gostwng yng Ngwent rhwng 2007/08 a 2008/09.

Tabl 1 Troseddau a gofnodwyd fesul ardal heddlu a Chymru a Lloegr, 2008/09[1]

Troseddau a gofnodwyd

Ardal Heddlu Cymru a Lloegr	**Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd (nifer)[2]**	**Cyfraddau troseddau a gofnodwyd i bob 1000 o bobl**					
		Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd (cyfraddau)	Trais yn erbyn person	Bwrgleriaeth	Troseddau yn erbyn cerbydau[3]	Troseddau lladrata eraill[4]	Niwed troseddol
Cymru	**236,615**	**79**	**16**	**9**	**11**	**16**	**19**
Dyfed-Powys	24,114	48	11	4	4	9	12
Gwent	49,171	88	17	10	13	16	22
Gogledd Cymru	46,134	68	16	6	6	14	17
De Cymru	117,196	95	17	11	15	20	22
Lloegr	4,402,332	86	16	11	11	20	17
Cymru a Lloegr	**4,703,814**	**86**	**16**	**11**	**11**	**19**	**17**

1. Mae'r rhestr o droseddau a gofnodwyd yn rhai o'r prif grwpiau troseddau. I gael mwy o fanylion am ba droseddau sydd wedi'u cynnwys yn y grwpiau hyn, gweler y Rhestr o Droseddau a Gofnodwyd yng Nghyfrol 2 y prif adroddiad. Y ffigyrau poblogaeth a ddefnyddiwyd yw brasamcanion o boblogaeth canol 2007 a gafwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ac maen nhw'n gyson gyda'r rhai a ddefnyddiwyd yn y brif gyfrol.

2. Mae cyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn cynnwys: trais yn erbyn person, troseddau rhywiol, lladrata, bwrgleriaeth, troseddau yn erbyn cerbydau, troseddau lladrata eraill, twyll a ffugiad, troseddau cyffuriau, niwed troseddol a throseddau eraill. Mae'r rhes cyfanswm Cymru a Lloegr yn cynnwys troseddau a gofnodwyd gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP). Fodd bynnag, nid yw ffigyrau BTP wedi'u cynnwys yng ngweddill y tabl.

3. Mae troseddau yn erbyn cerbydau'n cynnwys: dwyn o gerbyd modur, dwyn o gerbyd, cymryd cerbyd ac amharu ar gerbyd modur

4. Gweler y Rhestr o Droseddau a Gofnodwyd yng Nghyfrol 2 y prif adroddiad i gael y rhestr o droseddau.

Tabl 2 Canran y newid mewn troseddu a gofnodwyd fesul ardal heddlu a Chymru a Lloegr, 2007/08 i 2008/09[1]

Troseddau a gofnodwyd

Ardal heddlu, Cymru a Lloegr	**% y newid 07/08 i 08/09**					
	Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd[2]	Trais yn erbyn person	Bwrgleriaeth	Troseddau yn erbyn cerbydau[3]	Troseddau lladrata eraill[4]	Niwed troseddol
Cymru	**-3**	**-4**	**-4**	**-7**	**1**	**-5**
Dyfed-Powys	-6	-5	1	-8	-3	-11
Gwent	1	-8	5	5	6	-3
Gogledd Cymru	1	0	6	11	7	-9
De Cymru	-5	-4	-10	-14	-3	-3
Lloegr	-5	-6	0	-10	-4	-10
Cymru a Lloegr	**-5**	**-6**	**0**	**-10**	**-4**	**-10**

1. Mae'r rhestr o droseddau a gofnodwyd yn rhai o'r prif grwpiau troseddau. I gael mwy o fanylion am ba droseddau sydd wedi'u cynnwys yn y grwpiau hyn, gweler y Rhestr o Droseddau a Gofnodwyd yng Nghyfrol 2 y prif adroddiad. Y ffigyrau poblogaeth a ddefnyddiwyd yw brasamcanion o boblogaeth canol 2007 a gafwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ac maen nhw'n gyson gyda'r rhai a ddefnyddiwyd yn y prif gyfrol.

2. Mae'r cyfanswm o droseddau a gofnodwyd yn cynnwys: trais yn erbyn person, troseddau rhyw, lladrata, bwrgleriaeth, troseddau yn erbyn cerbydau, troseddau dwyn eraill, twyll a ffugiad, troseddau cyffuriau, niwed troseddol a throseddau eraill. Mae'r rhes cyfanswm Cymru a Lloegr yn cynnwys troseddau a gofnodwyd gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP). Fodd bynnag, nid yw ffigyrau BTP wedi'u cynnwys yng ngweddill y tabl.

3. Mae troseddau yn erbyn cerbydau'n cynnwys: dwyn cerbyd modur,dwyn cerbyd, cymryd cerbyd ac amharu ar gerbyd modur.

4. Gweler y Rhestr o Droseddau a Gofnodwyd yng Nghyfrol 2 y prif adroddiad i gael rhestr o droseddau

Ffigwr 1 Cyfraddau troseddau a gofnodwyd i bob 1000 o bobl fesul ardal heddlu, 2008/09



Tabl 3 Cyfraddau risg a digwyddiadau ATP ar gyfer troseddau cartref a phersonol fesul ardal heddlu a Chymru a Lloegr

ATP 2008/09

Ardal heddlu, Cymru a Lloegr	Troseddau cartref				Troseddau personol			
	% dioddefwyr o leiaf unwaith	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Cyfradd fesul 10,000 cartref[1]	Newid 07/08 i 08/09	% dioddefwyr o leiaf unwaith	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Cyfradd i bob 10,000 oedolyn[1]	Newid 07/08 i 08/09
Cymru	**14**	**	**2,203**		**4**	**	**557**	
Dyfed-Powys	9	**	1,290		4		736	
Gwent	18		2,916	**↓	4	**	482	**↓
Gogledd Cymru	9	**	1,258		4	**	486	
De Cymru	17		2,746		5	**	560	
Lloeegr	18		**2,868**	**↑	**6**		**909**	
Cymru a Lloegr	**18**		**2,831**		**6**		**889**	

1. Cyfrifir cyfraddau troseddau cartref (gan gynnwys bwrgleriaeth a throseddau cerbydau) fesul 10,000 cartref. Cyfrifir cyfraddau troseddau personol (gan gynnwys troseddau treisgar) fesul 10,000 o oedolion

Tabl 4 Cyfradd ATP o droseddau fesul ardal heddlu a Chymru a Lloegr

ATP 2008/09

Ardal heddlu, Cymru a Lloegr	Holl fwrgleriaeth			Pob dwyn o gerbydau[2]			Holl drais ATP		
	Cyfradd fesul 10,000 cartref[1]	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid 07/08 i 08/09	Cyfradd fesul 10,000 cartref[1]	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid i 07/08 i 08/09	Cyfradd fesul 10,000 oedolyn[1]	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid 07/08 i 08/09
Cymru	**218**			**568**			**323**	**	
Dyfed-Powys	89	**		312	**		497		
Gwent	106	**	**↓	819			198	**	**↓
Gogledd Cymru	199			165	**	**↓	271	**	
De Cymru	330			772			339		
Lloegr	**318**			**639**			**487**		
Cymru a Lloegr	**312**			**635**			**478**		

1. Cyfrifir cyfraddau troseddau cartref (gan gynnwys bwrgleriaeth a throseddau cerbydau) fesul 10,000 cartref. Cyfrifir cyfraddau troseddau personol (gan gynnwys troseddau treisgar) fesul 10,000 o oedolion

2. Mae dwyn o gerbydau'n cynnwys lladrata a lladrata o gerbydau a cheisio dwyn a dwyn o gerbydau. Gweler Cyfrol 2 y prif adroddiad i gael mwy o wybodaeth.

Ffigwr 2 Cyfradd digwyddiadau ATP fesul math o drosedd fesul ardal heddlu a Chymru a Lloegr, 2008/09



Canfyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru (Tabl 5)

- Roedd deunaw y cant o bobl yng Nghymru â lefelau uchel o ganfyddiad o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn eu hardal leol, tebyg i gyfartaledd Cymru a Lloegr (17%). Roedd lefelau is o ganfyddiad o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn Nyfed-Powys a Gogledd Cymru o gymharu â chyfartaledd Cymru a Lloegr.
- Roedd y gyfran o bobl oedd yn gweld defnyddio neu ddelio mewn cyffuriau fel problem yn uwch yng Nghymru'n gyffredinol (32%) ac yn Ne Cymru (36%) yn benodol, o gymharu â Chymru a Lloegr (28%). Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y gyfran o bobl oedd yn gweld ymddygiad meddw neu swnllyd fel problem yng Nghymru neu ar gyfer unrhyw heddlu yng Nghymru o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr.
- Rhwng 2007/08 a 2008/09, roedd lefelau ATP o ganfyddiad ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu ddefnyddio neu ddelio mewn cyffuriau fel problem ac ymddygiad meddw neu swnllyd fel problem, yn aros yn sefydlog yng Nghymru ac ym mhob ardal heddlu Cymru. Roedd y canfyddiad o ddefnyddio neu ddelio mewn cyffuriau fel problem yn cynyddu yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol.

Tabl 5 Canfyddiadau ATP o ymddygiad gwrth-gymdeithasol fesul ardal heddlu a Cymru a Lloegr

ATP 2008/09

Ardal heddlu, Cymru a Lloegr	**Lefel uchel canfyddiad o ymddygiad gwrth-**		**Problem defnyddio neu ddelio mewn cyffuriau yn yr ardal[2]**		**Problem ymddygiad meddw neu swnllyd yn yr ardal[3]**	
	% Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid 07/08 i 08/09	% Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid 07/08 i 08/09	% Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid 07/08 i 08/09
Cymru	**18**		**32**		**28**	
Dyfed-Powys	11	**	25		24	
Gwent	21		34		29	
Gogledd Cymru	11	**	26	**	22	
De Cymru	23		36	**	33	
Lloegr	**16**		**27**	**↑	**26**	**↑
Cymru a Lloegr	**17**		**28**	**↑	**26**	

1. Wedi'i fesur drwy ddefnyddio'r mesur saith llinyn ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Gweler Cyfrol 2 y prif adroddiad i gael mwy o wybodaeth
2. Y canran o bobl oedd yn gweld defnyddio neu ddelio mewn cyffuriau fel problem hynod fawr/eithaf mawr yn eu hardal leol.
3. Y canran o bobl oedd yn gweld ymddygiad meddw neu swnllyd fel problem hynod fawr/eithaf mawr yn eu hardal leol.

Effeithiolrwydd a thegwch y system cyfiawnder troseddol (CJS) yng Nghymru (Tabl 6)

- Roedd pum deg chwech y cant o bobl yng Nghymru'n hyderus bod y CJS yn gyffredinol yn deg. Roedd hyn yn is nag yng Nghymru a Lloegr (59%). Roedd hyder yn is yng Ngwent (52%) na Chymru a Lloegr yn gyffredinol.
- Roedd tri deg chwech y cant o bobl yng Nghymru'n teimlo'n hyderus bod y CJS yn gyffredinol yn effeithiol yn dod â phobl sy'n troseddu o flaen eu gwell. Roedd hyn yn debyg i'r cyfartaledd o 38% yng Nghymru a Lloegr. Roedd hyder yn is yng Ngwent (31%) o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr.

Tabl 6 Tegwch ac effeithiolrwydd ATP o'r system cyfiawnder troseddol fesul ardal heddlu a Chymru a Lloegr

ATP 2008/09

Ardal heddlu, Cymru a Lloegr	**Tegwch CJS[1]**		**Effeithiolrwydd CJS[2]**	
	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr
Cymru	**56**	**	**36**	
Dyfed-Powys	55		36	
Gwent	52	**	31	**
Gogledd Cymru	60		40	
De Cymru	56		37	
Lloegr	59		38	
Cymru a Lloegr	**59**		**38**	

1. Y canran o bobl oedd yn hynod o hyderus/eithaf hyderus bod y CJS ar y cyfan yn deg. Gweler Cyfrol 2 y prif adroddiad i gael mwy o wybodaeth.
2. Y canran o bobl oedd yn hynod o hyderus/eithaf hyderus bod y CJS ar y cyfan yn effeithiol. Gweler Cyfrol 2 y prif adroddiad i gael mwy o wybodaeth.

Agweddau at yr heddlu lleol yng Nghymru (Tabl 7)

- Roedd pedwar deg naw y cant o bobl yng Nghymru'n cytuno bod yr heddlu'n gwneud gwaith da neu ragorol – roedd hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (53%). Yng Ngwent a De Cymru, roedd y gyfran o bobl oedd yn cytuno hefyd yn is o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr (48% a 47% yn eu trefn).
- Roedd y gyfran o bobl yng Nghymru oedd yn cytuno bod yr heddlu'n deall ac yn delio â phryderon lleol yn debyg yng Nghymru a Lloegr (54% o gymharu â 52%). Yn ardaloedd heddlu Gwent (50%) a De Cymru (48%) roedd y gyfran o'r rhai oedd yn cytuno'n is o gymharu â Chymru a Lloegr ond roedd y gyfran gyffredinol yn uwch yn Nyfed -Powys (60%).
- Yng Ngwent roedd cynnydd sylweddol yng nghyfweliadau ATP rhwng 2007/08 a 2008/09 yn y gyfran o bobl oedd yn cytuno bod yr heddlu'n gwneud gwaith da neu ragorol ac yn deall ac yn delio â phryderon lleol.

Tabl 7 Agweddau ATP at heddlu lleol fesul ardal heddlu a Chymru a Lloegr

2008/09 BCS

Ardal heddlu, Cymru a Lloegr	**Gwerthuso heddlu lleol[1]**			**Heddlu'n delio a phryderon lleol[2]**		
	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid 07/08 i 08/09	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid 07/08 i 08/09
Cymru	**49**	**		**52**		
Dyfed-Powys	53			60	**	
Gwent	47	**	**↑	50	**	**↑
Gogledd Cymru	52			55		
De Cymru	48	**		48	**	
Lloegr	53			**54**		**↑
Cymru a Lloegr	**53**			**54**		**↑

1. Y canran o bobl oedd yn dweud bod eu heddlu lleol yn gwneud gwaith da/rhagorol. Gweler Cyfrol 2 y prif adroddiad i gael mwy o wybodaeth.
2. Y canran o bobl oedd yn cytuno bod yr heddlu yn yr ardal yn delio a'r pethau sy'n bwysig i bobl yn y gymuned. Gweler Cyfrol 2 y prif adroddiad i gael mwy o wybodaeth.

Agweddau at yr heddlu lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru (Tabl 8)

- Roedd pedwar deg pedwar y cant o bobl yng Nghymru'n cytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn delio ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol a materion troseddol oedd yn bwysig yn eu hardal – roedd hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (49%). Roedd y gyfran o'r rhai oedd yn cytuno hefyd yn is yn Ne Cymru (40%) nag yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol.
- Roedd y gyfran o bobl yng Nghymru oedd yn cytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn gofyn am farn pobl am yr ymddygiad gwrth-gymdeithasol a materion troseddol oedd yn bwysig yn eu hardal yn is o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr (41% o gymharu â 45%). Roedd y gyfran o'r rhai oedd yn cytuno yn is yng Ngwent (38%) nag yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol.

Tabl 8 Agweddau ATP at yr heddlu lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth fesul ardal heddlu a Chymru a Lloegr

ATP 2008/09

Ardal heddlu, Cymru a Lloegr	**Heddlu a chynghorau lleol yn delio a materion[1]**		**Heddlu a chynghorau lleol yn gofyn am farn pobl[2]**	
	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr
Cymru	**44**	**	**41**	**
Dyfed-Powys	48		44	
Gwent	46		38	**
Gogledd Cymru	46		43	
De Cymru	40	**	40	
Lloegr	49		45	
Cymru a Lloegr	**49**		**45**	

1. Y canran o bobl sy'n cytuno'n gryf/dueddol o gytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn delio ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol a materion troseddol sy'n bwysig yn yr ardal. Gweler Cyfrol 2 y prif adroddiad i gael mwy o wybodaeth.

2. Y canran o bobl sy'n cytuno'n gryf/dueddol o gytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn gofyn am farn pobl am yr ymddygiad gwrth-gymdeithasol a materion troseddol sy'n bwysig yn yr ardal hon. Gweler Cyfrol 2 y prif adroddiad i gael mwy o wybodaeth.

Deall data ATP

- *Gan fod brasamcanion ATP yn gallu dangos camgymeriadau samplo, gall gwahaniaethau rhwng brasamcanion blynyddoedd dilynol yr arolwg neu rhwng is-grwpiau poblogaeth ddigwydd ar hap. Defnyddir profion ystadegau sylweddol i ganfos pa wahaniaethau sy'n annhebygol o ddigwydd ar hap. Mae maint sampl bach yn golygu na fydd newidiadau mawr amlwg rhwng blynyddoedd neu wahaniaethau rhwng grwpiau, fod yn ystadegol sylweddol.*
- *Dangosir gwahaniaethau ystadegol sylweddol rhwng Cymru a Lloegr a rhwng 2007/08 a 2008/09 yn Nhablau 3 i 8. Mae dwy seren yn dangos gwahaniaethau sylweddol ar y lefel pump y cant. Mae'r saethau'n dangos cyfeiriad y newid.*
- *Dim ond canlyniadau ATP sy'n ystadegol sylweddol ar y lefel pump y cant sy'n cael eu hamlygu yn y testun yn y daflen ffeithiau hon.*
- *BCS incidents are geographically located in the area where the respondent lives rather than at the precise location of the incident.*
- *For unweighted bases, please see tables for Chapter 7 'Geographic patterns of crime', in Volume 1 of the main report (referenced below).*

Troseddau treisgar a rhywiol yn dangos y defnydd o gyllyll ac offer miniog eraill

Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (Tabl 9)

Yn 2008/09, roedd 951 o rai droseddau difrifol[1] wedi'u cofnodi gan yr heddlu oedd yn dangos defnydd o gyllyll neu offer miniog arall yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli pedwar y cant o gyfanswm rhai o droseddau difrifol.

Ar gyfer pob math o drosedd heblaw bygythiad i ladd, roedd y gyfran o droseddau'n dangos y defnydd o gyllell yn is yng Nghymru nag yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol. Roedd y gyfran o ladradau lle defnyddiwyd cyllell yn gostwng o 22 y cant i 17 y cant rhwng 2007/08 a 2008/09. Roedd y nifer o ladradau a gofnodwyd yng Nghymru lle defnyddiwyd cyllell yn gostwng o 27 y cant dros y cyfnod. Ni wneir cymariaethau ar gyfer y grwpiau troseddau eraill am dri rheswm: mae'r nifer o droseddau'n rhy fach i wneud cymhariaeth ystyrlon; estynnwyd y casgliad yn 2008/09 felly, ar gyfer rhai troseddau, dim ond data ar gyfer blwyddyn sydd ar gael; ac oherwydd bod eglurhad yn y Rheolau Cyfrif ar gyfer troseddau niwed corfforol difrifol (GBH) heb fwriad sy'n golygu nad yw'n bosibl eu cymharu ar draws y ddwy flynedd.

Tabl 9 Troseddau gyda chyllyll ac offer miniog a gofnodwyd gan yr heddlu ar gyfer rhai troseddau, 2008/09[1]

Niferoedd a chanrannau — **Troseddau a gofnodwyd**

Ardal heddlu, Cymru a rhanbarthau Lloegr	Cyfanswm o rai troseddau difrifol[1]		Cais i ladd		Bygythiadau i ladd		ABH a GBH[2]		Lladradau		Trais ac ymosodiadau rhywiol	
	Troseddau sy'n defnyddio cyllell	% sy'n defnyddio cyllell	Troseddau sy'n defnyddio cyllell	% sy'n defnyddio cyllell	Troseddau sy'n defnyddio cyllell	% sy'n defnyddio cyllell	Troseddau sy'n defnyddio cyllell	% sy'n defnyddio cyllell	Troseddau sy'n defnyddio cyllell	% sy'n defnyddio cyllell	Troseddau sy'n defnyddio cyllell	% sy'n defnyddio cyllell
Cymru	**951**	**4**	**10**	-	**85**	**17**	**645**	**3**	**207**	**17**	**4**	**0**
Dyfed-Powys	83	3	2	-	15	21	65	2	1	3	0	0
Gwent	206	3	3	-	18	10	170	3	13	6	2	1
Gogledd Cymru	212	4	2	-	19	18	165	4	26	17	0	0
De Cymru	450	4	3	-	33	21	245	2	167	21	2	0
Lloegr	**36,562**	**7**	**260**	**48**	**1,455**	**16**	**18,219**	**5**	**16,267**	**21**	**361**	**1**
Cymru a Lloegr[3]	**37,830**	**7**	**271**	**47**	**1,549**	**16**	**18,940**	**5**	**16,701**	**21**	**369**	**1**

1. Mae troseddau eraill nad sy'n cael eu dangos yn y tabl hwn a all gynnwys y defnydd o gyllell neu offer miniog. Yn y tabl hwn, mae 'troseddau sy'n defnyddio cyllell' yn cyfeirio at y defnydd o gyllell neu offer miniog. Mae'r cyfanswm o rai troseddau difrifol yn unig yn cynnwys y pum math o drosedd a ddangosir yn y tabl hwn.

2. Mae'n cynnwys clwyfo'n hiliol neu'n grefyddol neu achosi niwed corfforol difrifol (GBH).

3. Mae'n cynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain

- dangos nad oes adroddiad am y data oherwydd bod y nifer gwaelodol o droseddau'n is na 50

Cyfraddau canfyddiad fesul dull canfod fesul ardal heddlu a Chymru a Lloegr, 2008/09

Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (Tabl 10)

Mae cyfraddau canfod yn dangos rhai gwahaniaethau rhwng lluoedd; fodd bynnag, rhaid dehongli'r rhain yn ofalus (gweler Pennod 6 Cyfrol 1 y prif gyhoeddiad i gael mwy o wybodaeth). Mae cyfraddau canfod sancsiwn lle mae troseddwr wedi cael rhyw sancsiwn ffurfiol yn awr yn fesur mwy dymunol gan roi cymhariaeth fwy ystyrlon o berfformiad heddluoedd unigol.

Roedd y gyfran o droseddau a gofnodwyd sydd wedi'u clirio gan ganfyddiad sancsiwn yng Nghymru'n 33 y cant yn 2008/09 sy'n uwch na Chymru a Lloegr yn gyffredinol (28%). Roedd y gyfradd uchaf yn Nyfed-Powys (44 y cant) tra bod y gyfradd isaf a gofnodwyd yn Ne Cymru (28%). Roedd gan Ogledd Cymru gyfradd canfyddiad sancsiwn o 42 y cant ac roedd gan Went gyfradd canfyddiad sancsiwn o 30 y cant.

[1] Mae ffigyrau ar gyfer rhai mathau o droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu sy'n dangos y defnydd o gyllell neu offer miniog arall wedi'u casglu ers Ebrill 2007. Yn 2007/08 roedd y troseddau hyn yn cynnwys cais I ladd, niwed corfforol difrifol (GBH) gyda a heb fwriad, a dwyn. Estynnwyd y cwmpas o droseddau o Ebrill 2008 I gynnwys categoriau eraill o droseddau treisgar a rhywiol sy'n debygol o gynnwys y defnydd o gylledd (bygythiadau I ladd, niwed corfforol go iawn, trais ac ymosodiadau rhywiol).

Tabl 10 Cyfraddau canfyddiad fesul dull canfod, ardal heddlu a Chymru a Lloegr, 2008/09[1]

Niferoedd a chanrannau

Ardal heddlu, Cymru a Lloegr	Troseddau a gofnodwyd	Cyfradd canfyddiad[2]	Cyfradd canfyddiad sancsiwn	Cyfradd canfyddiad fesul dull canfod					
				Cyhuddiad/ gwys	Rhybuddion	Wedi'i ystyried		Rhybuddion cosb ar gyfer annhrefn	Rhybuddion Cannabis[3]
						Cofnodwyd ynghynt	Heb ei gofnodi ynghynt		
Cymru	**236,615**	**33**	**33**	**18**	**8**	**2**	**0**	**3**	**2**
Dyfed-Powys	24,114	44	44	22	15	1	1	3	3
Gwent	49,171	30	30	14	9	1	0	3	2
Gogledd Cymru[2]	46,134	43	42	21	10	2	1	6	2
De Cymru	117,196	28	28	17	5	2	0	2	2
Lloegr	**4,402,332**	**28**	**28**	**15**	**7**	**2**	**0**	**2**	**2**
Cymru a Lloegr[4]	**4,703,814**	**28**	**28**	**15**	**7**	**2**	**0**	**2**	**2**

1.Canran o droseddau a ganfuwyd

2. Mae'r gyfradd canfyddiad cyffredinol yn cynnwys nifer bychan o Warediadau Adferiedydd Ieuenctid a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gartref fel rhan o gynllun peilot ynghyd a chanfyddiadau di-sancsiwn a gynhaliwyd gan Ogledd Cymru a saith llu yn Lloegr.

3. Ers 26 Ionawr 2009, gellir rhoi PNDs ar gyfer bod a channabis yn eu meddiant. Hyd at ddiwedd Mawrth 2009, cyfrifwyd PNDs o'r fath gyda Rhybuddion Cannabis

4.Mae'n cynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain

Cyfeirebau a darllen pellach

Walker, A., Flatley, J., Kershaw, C and Moon, D. (2009) *Crime in England and Wales 2008/09, Volume 1. Home Office Statistical Bulletin 11/09. London: Home Office.*

Smith, K. and Hoare, J. (2009) *Crime in England and Wales 2008/09, Volume 2. Home Office Statistical Bulletin 11/09. London: Home Office.*

I gael mwy o wybodaeth fanwl, gweler pennodd 'Geographic patterns of crime' yn y prif gyhoeddiad.

Mae tablau ychwanegol gydag adroddiadau ystadegol ar gyfer Partneriaethau Diogelwch y Gymuned unigol yng Nghymru (gelwir yn Crime and Disorder Reduction Partnerships yn Lloegr), Unedau Gorchmynion Sylfaenol, ardaloedd heddluoedd a rhanbarthau ar gael yn:

http://www.homeoffice.gov.uk/rds/crimeew0809.html